Cofnodion Cyngor nos Iau Chwefror 3 2022 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, L.Roberts, C.Brewer, C.L.Price, M.Skerrett, M.Chapman.
Ymddiheuriadau: Marion L.Hughes, T.W.Jones
Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Bryn Ll.Hughes oedd yn gyn aelod o'r Cyngor, a Thad Marion wrth gwrs, cydymdeimlwyd â hi a gofynwyd i'r Aelodau sefyll er parch i Bryn.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 13.1.22, cynnig C.L.Price, cefnogi L.Roberts.

Cywiriad. Yn adran A470 - yr A470 fydd yn cael ei ailwynebu ac nid y maes parcio.

Heddlu. Fe wnaiff Liz Roberts anfon manylion cyswllt Swyddogion yr Heddlu i'r Clerc.

Yr A470. Gwaith ailwynebu'r ffordd i gymryd lle ym mis Ebrill.

Cyngor Sir. Gwaith mewn llaw gan Paul Sagar NMWTRA i osod y 'lanterni' newydd ar y polion trydan a gan Daniel Durrans Network Rail ar gyfer yr angen i glirio tyfiant coed ar Pont Gethin.

Llwybrau. Atebiad gan Trystan Edwards o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cadarnhau bod defnydd cyson o'r ystolion yn peri gofid mawr iddynt, maent yn trafod hyn gyda sawl corff yn cynnwys Lledr Hall gan mai hwy sydd wedi bod yn trwsio a gwella yr ystolion. Gan nad oes mynediad agored i'r cyhoedd, i bob pwrpas mae pawb yn tresmasu. Dim penderfyniad hyd yma.

Pontydd yn yr Ardal. Diolchodd y Cadeirydd i Liz Roberts am ei gwaith yn cydlynu y gwaith gyda'r cwmni sy'n gweithio ar Bont Sarn Ddu gan ddweud fod y patrwm gwaith yn gweithio'n hwylus a'r gwaith yn symud ymlaen yn dda.
Deallwyd fod y goeden yn yr afon oedd yn pwyso yn erbyn parapet y bont ym Mhont y Pant wedi cael ei symud. Yn dilyn cyfarfod safle mae Liz Roberts yn disgwyl cael gwybod gan CBSC pa bryd bydd y gwaith yn cychwyn ar Bont yr Afon. Tebygol y bydd angen cael trefn traffig un ffordd yn unig.

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim sylwadau
Cynlluniau Newydd
Bodygroes
Pont Chwarel y Fedw
Clerc yn aros am sylwadau gan yr Aelodau

Llifogydd. Erbyn hyn mae L.Roberts yn cael cyfarfodydd Zoom wythnosol gyda'r tim ac yn gobeithio cael rhaglen waith ganddynt erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

Scottish Power. L.Roberts wedi gofyn i Swyddogion SPEN ymweld â'r rhai gafodd broblemau mawr yn ddiweddar i egluro iddynt beth maent am ei wneud. Hefyd mae hi wedi holi pam na ellir gosod rhai ceblau dan ddaear? Roedd Rheolwr SE dros Ogledd Cymru wedi cyfarfod â Chynghorwyr Ardaloedd Gwledig heddiw 3ydd o Chwefror, cyfarfod cadarnhaol iawn, mae adolygiad ardaloedd gwledig i gymryd lle gan Fforwm lleol ac mae hi wedi gofyn am ragor o fanylion.

NRW. NRW i fod i gyflwyno Cytundeb Trwydded i'r Preswylwyr yr wythnos hon yna gall Cwmni D & C gychwyn ar y gwaith.

Terfyn gyrru 20mya. Dim i'w adrodd.

Coeden Nadolig. Clerc i anfon at Cyngor Tref Ffestiniog i ddiolch iddynt am eu cymorth gyda cludo'r goeden Nadolig i'r pentref..

Toiledau. Clerc wedi cysylltu â Swyddfa'r Cyfreithiwr yn Llanrwst ac aros i'r 'searches' gael ei cwblhau y maent cyn gallu cwblhau y trosglwyddiad.

Y Gofgolofn. Y safle yn edrych yn dda iawn, hyderir y bydd E.Roberts yn gallu atgyweirio'r wal yn ystod yr wythnosau nesaf.

Y Fynwent. Derbyniwyd adroddiad gan Ian Brooks yn dilyn ei archwiliad ar y safle, ni fedrodd ddarganfod safle'r Gladdgell, roedd wedi holi am gôst archwiliad manylach, gall fod tua £750 y diwrnod. Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn ormod i'w dalu. Cafwyd nodiadau gan Bill Jones yn rhoi awgrymiadau am leoliad posibl, rhaid rhoi ystyriaeth iddynt. Cafwyd adroddiad manwl gan C.Brewer (cafodd yr aelodau gopi ganddi) yn dilyn cyfarfod yn y fynwent i drafod materion yn ymwneud â datbylgu'r safle a'r cwt. Diolchwyd i Connie am yr adroddiad - yn amlwg bydd angen trafodaeth fanylach arni gan fod sawl agwedd i'r adroddiad. Bwriedir cynnal cyfarfod agored yn y Pafiliwn Cymunedol Mawrth 12fed i roi cyfle i'r ardalwyr roi ei barn a chynnig sylwadau eu hunain.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.Brewer, cefnogi C.L.Price a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. Rhoes M.Skerrett adroddiad am ei drafodaethau gyda Bruce Atkins a chytunwyd y dylai barhau gyda'r gwaith o ddatblygu safle newydd i'r Cyngor.

Sgip. Y dyddiad cynharaf ar gyfer cael ymweliad Sgip ydi Mai 10fed, roedd y Clerc wedi derbyn hwn, cytunwyd ar gynnig M.Skerrett y dylid trefnu ymweliad arall ar gyfer mis Awst.

Beicio Taith Eryri. Nid ras feiciau fwriedir ond taith newydd yn Eryri, Cadeirydd wedi cysylltu ag E.Williams ac nid yw ef yn fodlon i'r ras fynd ar ei dir ef. Clerc i gysylltu â'r trefnwyr.

Trafod Dogfen. Clerc wedi anfon dogfen i'w hystyried at yr Aelodau, cytunwyd i wneud hyn yn y cyfarfod nesaf, angen sylwadau erbyn Mawrth 17.

Adeilad gwâg yn y Pentref. Deallwyd fod sawl un yn y pentref wedi bod yn holi am y sefyllfa, beth yw'r bwriad tybed? Clerc i wneud ymholiadau.

Diffibriliwr. Holodd L.Roberts tybed oedd angen cael golwg ar y rhai sydd yn y pentref, oes angen rhoi sylw iddynt, cysylltu â Tomos.

Cyfarfod nesaf: Cytunwyd y dylid cyfarfod nesaf yn y Pafiliwn nos Iau Mawrth 3 2022 am 7pm.